



Annwyl Swyddog Cyfrifol,

Rydym heddiw wedi cyhoeddi Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol (PQL) ddiwygiedig, sy'n adlewyrchu canlyniad ein hymgyngoriad diweddar ar y dull i'w ddefnyddio i ddatblygu cyfres newydd o gymwysterau ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwaith Chwarae. Mae hyn yn cynnwys Hysbysiad o Gynnig i Gyfyngu ar y cymwysterau hynny ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yr ydym yn bwriadu eu datblygu i'w haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2019. Mae'r Rhestr ddiwygiedig, gan gynnwys yr Hysbysiad i Gyfyngu, ar gael ar ein [gwefan](#).

Mae'r Hysbysiad o Gynnig i Gyfyngu yn dechrau cyfnod pan gall partïon sydd â diddordeb gyflwyno sylwadau i ni - mae'n rhaid cyflwyno'r rhain erbyn 5pm ar 22 Tachwedd 2016. Roedd yr ymgyngoriad yn cynnwys ein cynigion ar gyfer creu lotiau i ddatblygu cymwysterau penodol. Rydym yn dal i ystyried ein strwythur lotiau arfaethedig. Ein bwriad ar hyn o bryd, yn dibynnu ar y sylwadau, yw dewis un neu ddau gorff dyfarnu ar gyfer pob lot gan ddefnyddio proses gystadleuol deg ac agored, a fydd yn dechrau diwedd mis Tachwedd neu ddechrau mis Rhagfyr os, yn dilyn y sylwadau, y byddwn yn dewis parhau â'n Cynnig i Gyfyngu.

Mae Adran 30(4) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 yn nodi y bydd dynodiad cymhwyster sy'n ddigon tebyg i'r cymwysterau dan sylw yn peidio â chael effaith ar ôl cymeradwyo cymhwyster cyfyngedig. Mae paragraff 25 o'n polisi Cymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig yn dweud: 'Ni fydd Cymwysterau Cymru yn dynodi unrhyw ffurf ar gymhwyster sy'n destun cyfyngiad neu gymhwyster sydd â'r un diben â chymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig neu ddiben tebyg, yn ein barn ni, yn enwedig lle y gellid dewis cymhwyster arall yn lle cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig'. Mae cwmpas ein Cyfyngiad Arfaethedig yn cynnwys y canlynol:

- cymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol integredig
- cymwysterau Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (GDDP)
- cymwysterau Rheoli Gofal
- Cyrsiau TGAU a Safon Uwch sy'n cwmpasu lechyd a Gofal Cymdeithasol ac Economeg y Cartref (Datblygiad Plant).

Bydd y cyfyngiad arfaethedig ond yn berthnasol o ran cymhwysedd cymwysterau i'w defnyddio ar raglenni dysgu sy'n derbyn cyllid cyhoeddus yng Nghymru.

Mae nifer sylweddol o gymwysterau ym maes lechyd, Gwaith Chwarae, Gwaith Ieuentid, Cwnsela a meysydd cysylltiedig eraill **nad** ydynt wedi'u cwmpasu gan y Cyfyngiad Arfaethedig.

Wrth nodi effaith y Cyfyngiad Arfaethedig rydym wedi defnyddio'r broses ganlynol i lunio rhestr ddangosol o gymwysterau dynodedig presennol y gallai'r cyfyngiad effeithio arnynt:

- cyrchu rhestr o gymwysterau dynodedig o gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW) wedi'u tynnu'n bennaf o'r rheini yn is-sector 1.5 Datblygiad a Lles Plant a'r rheini yn is-sector 1.3 Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal a chymwysterau eraill gyda geiriau allweddol perthnasol
- dileu'r rheini a oedd yn bennaf cysylltiedig â Gwaith Chwarae, cwnsela, Iechyd neu Waith Ieuenctid
- gofyn i gyrff y sector wirio'r rhestr yn seiliedig ar eu dealltwriaeth o gwmpas y Cyfyngiad Arfaethedig.

Rydym wedi gweithio'n galed iawn i ddatblygu'r rhestr hon, ond nid yw'n gynhwysfawr a chaiff ei hadolygu'n rheolaidd, yn enwedig yn dilyn unrhyw sylwadau a gyflwynir i ni erbyn 5pm ar 22 Tachwedd 2016. Os yw'r rhestr yn cynnwys cymwysterau na ddylai'r cyfyngiad effeithio arnynt yn eich barn chi, neu os byddwch yn credu bod y rhestr wedi hepgor cymhwyster, yna rhowch wybod i ni drwy gyflwyno sylw i AdolygiadIechydGofal@cymwysteraucymru.org cyn y dyddiad cau.

Os byddwn yn parhau gyda'n Cynnig i Gyfyngu, yna byddwn yn cyhoeddi rhestr ddiwygiedig ym mis Rhagfyr ac yn egluro bryd hynny sut y gall cyrff dyfarnu roi gwybod i ni am ddiwygiadau pellach. Bydd y dyddiadau canlynol yn berthnasol i gymwysterau ar y rhestr derfynol:

- 31 Awst 2019 fel Dyddiad Gorffen Gweithredol. Ni all dysgwyr newydd gofrestru ar gyfer cymhwyster ar ôl y dyddiad hwn. Fodd bynnag, gall ymgeiswyr presennol gwblhau'r cymhwyster tan Ddyddiad Gorffen yr Ardystiad.
- 31 Awst 2021 fel Dyddiad Gorffen yr Ardystiad. Mae cymhwyster wedi dod i ben ar ôl y dyddiad hwn. Ni chaiff y cymhwyster ei ddyfarnu i unrhyw ddysgwyr ac ni fydd unrhyw ysgol na choleg yn derbyn arian cyhoeddus i'w addysgu ar ôl y dyddiad hwn. Byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â'r broses ar gyfer gwneud hyn.

Byddwn yn nodi manylion pellach am y broses, gan gynnwys sut y gall corff dyfarnu apelio yn erbyn cymhwyster ar y rhestr, os byddwn yn cyhoeddi Penderfyniad i Gyfyngu.

Yn gywir



Philip Blaker

Prif Weithredwr

Cymwysterau Cymru